Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Yr Hendre
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 2LY

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol yr Hendre yn gwasanaethu ardal helaeth o dref Caernarfon yng Ngwynedd sydd â disgyblion sy'n dod o ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol.

Ar hyn o bryd, mae 374 o ddisgyblion yn yr ysgol, yn cynnwys tua 100 o ddisgyblion rhan amser o oed meithrin. Cânt eu haddysgu mewn 16 o ddosbarthiadau fesul blwyddyn ysgol (dau ddosbarth ar gyfer pob blwyddyn), gan gynnwys dau ddosbarth meithrin. Mae 88% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae 16 o athrawon amser llawn, a thri athro rhan amser.

Y ganran sy'n derbyn cinio am ddim ar hyn o bryd yw 20%. Mae 113 (30%) o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, 12 ohonynt gyda datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers wyth mlynedd. Yn dilyn ymddeoliad y dirprwy blaenorol yn 2011, gweithredodd yr ysgol heb ddirprwy nes penodi'r dirprwy presennol ar ddiwedd tymor yr hydref 2012.

Ers tymor y gwanwyn 2012, mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn adeilad newydd.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2007. Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Yr Hendre yn 2012-2013 yw £3,622. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol yr Hendre yn safle 70 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyffredinol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- mae medrau llythrennedd y disgyblion yn dda yn Gymraeg a Saesneg;
- mae safonau llafar Cymraeg yn arbennig o gryf;
- mae safonau lles yn dda;
- mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu addas; ac
- mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda drwy'r ysgol.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr digon annibynnol;
- anghyson ar draws yr ysgol yw defnydd athrawon o ddulliau addysgu'r medrau;
- nid oes cysondeb yn y ffordd mae athrawon yn ymateb i waith disgyblion yn eu llyfrau;
- nid yw'r ysgol yn defnyddio profion asesu safonedig yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion wrth symud drwy'r ysgol ac i gefnogi asesiadau athrawon;
- yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r cynllunio yn ddigon cydlynol nac yn caniatáu i ddisgyblion adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol; ac
- nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion drafod sut i wella eu gwaith.

### Rhagolygon gwella

Canfuwyd rhai nodweddion da:

- mae gweledigaeth y pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn canolbwyntio ar wella lles disgyblion;
- mae'r llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn gefnogol i'r ysgol; ac
- mae'r staff wedi gweithio'n galed i sicrhau parhad mewn addysg disgyblion wrth symud i adeilad newydd.

Fodd bynnag, mae'r rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw'r arweinwyr yn cyfathrebu eu gweledigaeth yn ddigon da gyda'r staff a rhanddeiliaid eraill;
- nid oes digon o bwyslais ar wella safonau mewn cyfarfodydd staff, y tîm rheoli a'r llywodraethwyr;

- nid yw pob aelod o'r tîm rheoli yn deall ei rôl strategol ar draws yr ysgol;
- nid oes gan yr ysgol ddiwylliant o hunanarfarnu sydd yn rhan arferol o waith bob dydd yr ysgol;
- nid yw'r ysgol wedi llwyddo i ymateb yn llawn i rai o argymhellion yr arolygiad diwethaf;
- nid yw arweinwyr nac athrawon yn dadansoddi data yn gadarn i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella; ac
- nid yw'r cynllun datblygu ysgol yn ddefnyddiol i arweinwyr na'r staff fel offeryn effeithiol i sicrhau gwelliant.

## Argymhellion

A1 Cynllunio'n fwriadus i sicrhau dilyniant a chynnydd mewn gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion drwy'r ysgol.

A2 Sicrhau bod prosesau asesu'n olrhain cynnydd disgyblion drwy'r ysgol.

A3 Datblygu proses gyflawn systematig ar gyfer hunanarfarnu yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth feintiol gadarn.

A4 Sicrhau cynllun gwella ysgol sy'n gadarn seiliedig ar ddeilliannau'r broses hunanarfarnu.

A5 Sicrhau cyfrifoldebau strategol ysgol gyfan ar gyfer arweinwyr yr ysgol.

A6 Gweithredu gofynion statudol ar gyfer Rheoli Perfformiad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn Ysgol yr Hendre. Mae gwaith y mwyafrif o ddisgyblion mewn llyfrau gwaith ac mewn sesiynau dysgu yn cyrraedd safonau sy'n gymesur â'u gallu a'u hoed. Nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cyflawni i'r safon y gellid ei disgwyl oddi wrthynt.

Mae disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen, ac i raddau llai yng nghyfnod allweddol 2. Nid ydynt bob amser yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu eu hunain, nac yn sicr ynghylch sut i wella eu gwaith.

Mae medrau llythrennedd y disgyblion yn dda yn Gymraeg a Saesneg. Mae bron pob disgybl o bob oed yn defnyddio geirfa bynciol a chyffredinol eang ac amrywiol yn rhugl ac hyderus wrth drafod eu gwaith. Mae safonau llafar Cymraeg yn arbennig o gryf.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol i gaffael gwybodaeth ar draws y cwricwlwm. Maent yn darllen yn gywir a rhugl, ac mae'r mwyafrif yn defnyddio goslef llais yn dda i gyfleu ystyr pan fyddant yn darllen yn gyhoeddus.

Gall y disgyblion ysgrifennu mewn ystod dda o ffurfiau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn cyflwyno'u gwaith yn gynyddol gywir a thaclus, gan atalnodi a pharagraffu'n effeithiol erbyn cyrraedd pen uchaf cyfnod allweddol 2.

Nid yw canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 cystal â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. O'u cymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn yr 50% isaf mewn Datblygiad Iaith a Llythrennedd, Datblygiad Mathemategol a'r dangosydd Cyfnod Sylfaen. Mewn Datblygiad Personol, Cymdeithasol a Lles mae'r ysgol yn y 25% isaf.

Mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Yr oedd canlyniadau pob pwnc, a'r dangosydd pwnc craidd, ychydig yn is yn 2012 yn dilyn cynnydd o bedair blynedd. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn gyson yn y 25% neu 50% uchaf.

Er bod merched wedi cyflawni'n uwch na bechygn yn 2012 mewn Cymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 ac mewn datblygiad personol, cymdeithasol a lles yn y Cyfnod Sylfaen, nid oes patrwm cyson o dangyflawni ym mhlith bechgyn.

Mae'r ychydig ddisgyblion sy'n siarad iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg gartref yn gwneud cynnydd cyson a phriodol.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyffredinol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau. Yn y mwyafrif o sesiynau dysgu, maent yn ymateb yn dda pan fydd athrawon yn gosod tasgau addas ar eu cyfer.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o blant ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd ffitrwydd a bwyd iach at fyw bywyd. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ymfalchïo yn eu gwaith yno.

Mae'r disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn mwynhau'r cyfleoedd i wneud ymarfer corff yn ystod gwersi ac yn y clybiau amrywiol yn ystod yr awr ginio ac ar ôl ysgol. Maent yn falch o gyfleoedd i gynrychioli'r ysgol mewn cystadlaethau chwaraeon gwahanol.

Mae'r disgyblion yn groesawgar i ymwelwyr, ac yn dangos cwrteisi priodol ym mhob sefyllfa. Maent yn ofalus iawn o'i gilydd, gan ddangos lefel uchel o barch. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn arbennig o dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn canolbwyntio'n dda wrth weithio ar eu tasgau ac yn cydweithio'n hwylus gyda'i gilydd.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor Eco'n gweithredu'n briodol, ac yn cymryd rhan arweiniol mewn nifer o weithgareddau. Teimlant fod yr ysgol yn gwrando ar eu llais. Mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gwasanaethau a digwyddiadau cyhoeddus eraill.

Mae lefelau presenoldeb wedi dangos cynnydd cyson dros gyfnod, er bod cwymp bychan yn 2012. Dros gyfnod o bedair blynedd, maent ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Ar y cyfan, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu addas sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r ardaloedd dysgu yn gadarn ac effeithiol, ac mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol i'w wireddu. Mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn dechrau datblygu prosesau effeithiol i gynllunio'r cwricwlwm ond nid ydynt wedi cael digon o amser i ddylanwadu'n llawn ar gynnydd disgyblion. Er bod cydweithio da rhwng athrawon o fewn yr un flwyddyn ysgol, nid yw'r cynllunio yn ddigon cydlynol nac yn caniatáu i ddisgyblion adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer y medrau yn dda. Nid yw'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn sicrhau bod y disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd yn systematig. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl yn dechrau cael sylw pwrpasol ac maent yn amlygu'u hunain ym mywyd dyddiol yr ysgol a gwaith y disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth o faterion dinasyddiaeth fyd eang, yn bennaf trwy astudio gweldydd eraill fel rhan o'r cwricwllwm. Mae'r plant ar y Pwyllgor ECO yn cael cyfleoedd addas i drafod mentergarwch a'r angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol a chynaliadwy y maent yn byw ynddo.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n gadarn ar draws yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau symbylus. Mae perthynas waith dda gyda disgyblion ac mae cyflymdra'r gwersi yn addas. Mae'r athrawon yn cwestiynu'n fedrus i symud y dysgu yn ei flaen ac maent yn fodelau iaith da. Maent yn cyfeirio at ddysgu blaenorol i hybu dilyniant yn y dysgu. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae gweithgareddau addas ar gyfer yr ystod o ddisgyblion. Mae rheolaeth ddosbarth yr athrawon yn effeithiol. Yn yr ychydig o wersi lle nad oedd yr addysgu cystal, nid oedd yr athrawon yn gwahaniaethu'n ddigonol, ac nid oedd defnydd effeithiol o'r staff cymorth dysgu.

Anghyson ar draws yr ysgol yw defnydd athrawon o ddulliau addysgu'r medrau, ac o ganlyniad prin yw'r dystiolaeth bod y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol dros amser.

Mae athrawon a staff ategol yn adnabod y disgyblion yn dda fel unigolion. Nid oes cysondeb yn y ffordd mae athrawon yn ymateb i waith disgyblion yn eu llyfrau. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu'n datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn defnyddio meini prawf llwyddiant i helpu disgyblion i adnabod nodweddion da yn eu gwaith ond nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion drafod sut i'w wella.

Mae system newydd i olrhain cynnydd disgyblion wedi ei gosod yn ei lle, ond mae'n rhy gynnar i fesur ei effaith ar ddeilliannau disgyblion. Nid yw'r ysgol yn defnyddio profion asesu safonedig yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion wrth symud drwy'r ysgol ac i gefnogi asesiadau athrawon.

Mae adroddiadau i rieni yn cwrdd â'r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau hyrwyddo a datblygu iechyd a lles y disgyblion yn dda.

Mae gwasanaethau dosbarth yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio a thrafod materion moesol, ysbrydol, ymddygiad a gwerthoedd tra bod y gwasanaeth gwobrwyo wythnosol yn datblygu ethos o falchder a pharch ymysg y disgyblion.

Mae arweiniad asiantaethau allweddol yn cefnogi'r gynhaliaeth ar gyfer disgyblion bregus. Mae'r disgyblion yn elwa o gefnogaeth gan wasanaethau fel y seicolegydd addysg, therapyddion iaith a lleferedd, ac athrawon arbenigol clyw a golwg. Mae

trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a chânt eu cynnwys yn llwyr ymhob agwedd o gwricwlwm yr ysgol. Ar y cyfan, derbyniant gefnogaeth briodol o fewn y dosbarth ond nid yw'r ysgol yn cynnig digon o strategaethau ymyrraeth i ateb gofynion penodol pob disgybl.  Mae cynlluniau addysg unigol yn eu lle ar gyfer disgyblion penodol ond nid yw'r targedau a osodir ynddynt bob amser yn ddigon mesuradwy i olrhain eu cynnydd yn effeithiol.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae amgylchedd ffisegol yr ysgol newydd hon o ansawdd uchel.  Er hyn, nid yw'r cae chwarae cyfagos wedi ei ddiogelu ac mae hyn yn cyfyngu ar y defnydd ohono. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu o safon uchel.  Mae'r buarth o faint da ac yn cael ei ddefnyddio a'i reoli'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae ethos cartrefol, croesawgar yr ysgol yn sicrhau fod y disgyblion yn cyd-dynnu'n dda mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Anogir y disgyblion i ddangos parch a gofal tuag at eu hunain ac eraill, sy'n eu helpu i ddatblygu perthynas dda gyda'u cyfoedion a staff yr ysgol.  Mae gan bob disgybl fynediad llawn i'r cwricwlwm.

Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn llwyddiannus drwy weithgareddau dosbarth, rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol, ac addysg grefyddol.  Mae gwasnaethau ysgol hefyd yn cyfrannu'n adeiladol i'r elfen hon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth:  Anfoddhaol**

Mae'r pennaeth a'r staff wedi bod trwy gyfnod ansefydlog dros y ddwy flynedd diwethaf.  Mae'r llywodraethwyr wedi penodi dirprwy bennaeth newydd ers Ionawr 2013, wedi cyfnod o weithredu heb un.  Mae'r ysgol wedi symud i mewn i adeilad newydd ers blwyddyn ac mae'r staff wedi gweithio'n galed i sicrhau parhad mewn addysg ar gyfer y disgyblion.

Mae gweledigaeth y pennaeth a'r dirprwy yn canolbwyntio ar wella lles y disgyblion ond nid ydynt wedi cyfathrebu eu gweledigaeth yn ddigon da gyda'r staff a rhanddeiliaid eraill.  Nid oes digon o bwyslais ar wella safonau a deilliannau disgyblion mewn cyfarfodydd staff, y tîm rheoli na'r llywodraethwyr.

Mae strwythur rheolaethol newydd iawn gan yr ysgol sydd wedi ad-drefnu rolau a chyfrifoldebau.  Nid yw aelodau'r tîm yn gyffredinol yn deall eu rôl strategol ar draws yr ysgol ac nid ydynt hyd yma wedi cael effaith ar ddeilliannau disgyblion nac ar y ddarpariaeth ar draws yr ysgol.  Nid yw disgwyliadau arweinwyr yn ddigon uchel ohonynt.

Ar y cyfan, mae'r llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac maent yn gefnogol i'r ysgol. Serch hynny, nid yw'r corff llywodraethol yn herio'r ysgol ddigon i ysgogi gwelliant mewn safonau.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr a llywodraethwyr yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol. Mae'r staff yn canolbwyntio'n addas ar fedrau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei ddatblygu'n effeithiol yn yr adeilad newydd. Fodd bynnag, nid yw pob disgybl yn cael digon o gyfle i weithio yn yr ardal allanol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen addas ar y cyfan ac mae'r pennaeth wedi rhannu'r adroddiad yn briodol gyda'r llywodraethwyr. Mae'r staff a'r llywodraethwyr wedi trafod yr adroddiad hwn ac wedi ei addasu'n briodol. Serch hynny, nid oes gan yr ysgol ddiwylliant o hunanarfarnu sydd yn rhan arferol o waith bob dydd yr ysgol ac nid yw'r ysgol wedi llwyddo i ymateb yn llawn i rai o argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Er bod arweinwyr yn arsylwi gwersi a thrafod gwaith y disgyblion gyda'r athrawon, nid ydynt yn cydlynu gweithgareddau hunanarfarnu'n ddigon effeithiol. Nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i nodi diffygion. Nid yw arweinwyr nac athrawon yn dadansoddi data yn gadarn i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Ni roddir digon o sylw i farn staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion.

Nid oes cysylltiad amlwg rhwng yr hunan arfarnu a'r cynllun datblygu. Nid yw'r cynllun datblygu'n canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau pwysicaf yr ysgol ac nid yw'n ddigon manwl. Er enghraifft, nid yw'n cyfeirio'n fanwl at ddeilliannau monitro, nid yw'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am arwain na monitro'r targedau ac nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ffocysu ar godi safonau plant. O ganlyniad, nid yw'n ddefnyddiol i arweinwyr na'r staff fel offeryn effeithiol i sicrhau gwelliant.

Mae staff wedi ymweld ag ysgolion eraill yn ddiweddar i weld arfer dda er mwyn cefnogi newidiadau ynglŷn ag arweinyddiaeth ac agweddau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymweliadau hyn yn dechrau cael effaith bositif ar gynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol addas. Mae perthynas dda gyda mwyafrif o'r rhieni ac mae'r ysgol wedi dechrau datblygu cysylltiadau agosach gyda'r gymuned leol wrth sefydlu'r ysgol newydd o fewn ei chymdeithas.

Daw rhieni i gynorthwyo i wneud gwelliannau i ardal allanol yr ysgol. Cyfoethogir y cwricwlwm yn briodol drwy ymweliadau gan nifer o ymwelwyr ac mae cysylltiadau gydag elusennau ac asiantaethau amrywiol yn hybu lles y disgyblion yn dda. Maent oll yn cyfrannu'n helaeth at gyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella deilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal i gymedroli asesiadau yng nghyfnodau allweddol 2 ond nid yw hyn wedi ei werthuso'n ddigonol i ddylanwadu'n effeithiol ar asesiadau mewnol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda'r ysgol uwchradd leol er mwyn paratoi'r disgyblion hŷn yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Gweithia'r ysgol yn dda gyda cholegau lleol i ddarparu lleoliad buddiol i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon. Mae'r ysgol yn parhau i weithio'n agos gyda gwasanaeth addysg yr awdurdod er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli eu hadnoddau'n briodol. Mae'r corff llywodraethol a'r is-bwyllgor cyllid yn cyfarfod yn rheolaidd. Gyda chefnogaeth swyddog cyllid yr awdurdod, maent yn monitro'r gyllideb yn briodol ac mae sefyllfa ariannol yr ysgol wedi gwella'n sylweddol dros gyfnod.

Nid yw'r ysgol yn ymateb i ofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad. O ganlyniad, nid yw'n amlwg i ba raddau mae hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol wedi cael effaith gadarnhaol ar wella darpariaeth a safonau.

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a staff cynorthwyol. Serch hynny, ni ddefnyddir staff ategol bob amser yn ddigon effeithiol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r trefniadau ar gyfer y tîm rheoli estynedig yn ddrud a hyd yma nid yw'n glir pa mor effeithiol ydynt.

Oherwydd hyn ac oherwydd bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas ac yn cyrraedd cyflawniadau priodol, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Nid yw canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 cystal â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. O'u cymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn yr 50% isaf mewn Datblygiad Iaith a Llythrennedd, Datblygiad Mathemategol a'r dangosydd Cyfnod Sylfaen. Mewn Datblygiad Personol, Cymdeithasol a Lles mae'r ysgol yn y 25% isaf.

Mewn blynyddoedd blaenorol, o dan y drefn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, roedd yr ysgol yn cymharu'n fwy ffafriol gyda'r teulu o ysgolion, Cymru ac ysgolion tebyg o ran canran disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim. Roedd yr ysgol yn gyson yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru, ac yn gyson ym mhlith yr 50% uchaf o ysgolion tebyg. Mae hyn yn awgrymu nad yw 2012 yn cyfateb i'r patrwm blaenorol.

Mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Roedd canlyniadau pob pwnc a'r dangosydd pwnc craidd ychydig yn is yn 2012 yn dilyn cynnydd o bedair blynedd. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn gyson yn y 25% neu 50% uchaf. Er i'r canlyniadau ddangos dirywiad yn 2012, mae'r ysgol yn parhau i fod yn yr 50% uchaf ym mhob pwnc craidd, a'r dangosydd pwnc craidd.

Er bod merched wedi cyflawni'n uwch na bechgyn yn 2012 mewn Cymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 ac mewn datblygiad personol, cymdeithasol a lles yn y Cyfnod Sylfaen, nid oes patrwm cyson o dangyflawni ym mhlith bechgyn.

Mae'r ychydig ddisgyblion sy'n siarad iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg gartref yn gwneud cynnydd cyson a phriodol.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyffredinol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau. Yn y mwyafrif o sesiynau dysgu, maent yn ymateb yn dda pan fydd athrawon yn gosod tasgau addas ar eu cyfer.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 97 o holiaduron oddi wrth ddisgyblion yr ysgol. Mae'r ymateb yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn, ac yn agos at y cyfartaledd ar draws Cymru.

Mae'r disgyblion i gyd yn dweud:

- bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach

Mae bron pob disgybl yn dweud:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn gofidio am rywbeth; a'u
- bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os yw gwaith yn anodd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud:

- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddynt wneud eu gwaith
- bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn yr ysgol; a
- bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella gwaith ysgol.

Mae llawer o'r disgyblion yn dweud:

- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio; a
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Ymatebodd 46 o rieni i'r holiaduron. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan ac yn cymharu'n agos gydag ymatebion ysgolion ar draws Cymru.

Dywed pob rhiant bod:

- eu plant yn hoffi'r ysgol;
- eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol; a
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol.

Dywed bron pob rhiant:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod y staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a gwneud eu gorau;

- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywed y rhan fwyaf o rieni:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn a gofyn cwestiwn, gwneud awgrymiadau a nodi problemau;
- bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.

Mae llawer o'r rhieni'n dweud:

- bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol pan fydd anghenion unigol penodol;
- eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant; ac
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Morgan | Arolygydd Tîm |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Gwyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Arwel Wyn Jones | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.